Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Uwchradd Cantonian
Ffordd Y Tyllgoed
Y Tyllgoed
CF5 3JR

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2019**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Uwchradd Cantonian

Mae Ysgol Uwchradd Cantonian yn ysgol gymunedol 11-18 oed cyfrwng Saesneg a gynhelir gan awdurdod lleol Caerdydd. Mae wedi'i lleoli yn Y Tyllgoed, ac yn gwasanaethu'r ardal gyfagos yng ngorllewin Caerdydd. Mae 580 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd. Mae hyn yn gynnydd ers adeg yr arolygiad diwethaf, ond mae'r nifer yn y chweched dosbarth wedi gostwng o 128 i 57 o ddisgyblion.

Mae bron i 38% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim, sydd ymhell uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 16.4%. Mae tua 53% o ddisgyblion yn byw yn y 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Ychydig iawn o ddisgyblion yn unig sy'n rhugl yn y Gymraeg, ac yn siarad Cymraeg gartref, tra bod bron i 13% o ddisgyblion yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae gan ryw 37% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 22.9%. Mae'r 7.5% o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig ymhell uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 2.2%.

Mae'r ysgol yn cynnwys tair uned sy'n cynorthwyo disgyblion ag anhwylder y sbectrwm awtistig, y rheiny ag anawsterau dysgu cyffredinol, a'r rheiny sydd mewn perygl o gael eu gwahardd yn barhaol.

Penodwyd y pennaeth presennol ym mis Hydref 2015. Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn cynnwys y pennaeth, dirprwy bennaeth, dau bennaeth cynorthwyol, pennaeth cynorthwyol cysylltiol a rheolwr busnes.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/Schools/SchoolSearch?lang=cy

## Crynodeb

Mae gan Ysgol Uwchradd Cantonian ethos cynhwysol a chefnogol yn seiliedig ar 'Y gorau i bob un, llwyddiant i bawb' ('The best for each, success for all') sy'n hyrwyddo lles disgyblion yn effeithiol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu'n llwyddiannus fel dinasyddion moesegol a gwybodus, ac yn dangos lefelau cryf o barch ar gyfer credoau pobl eraill.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mewn gwersi, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd addas ac yn galw dysgu blaenorol i gof yn dda. Mae ychydig o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf iawn yn eu gwersi, ac yn cynhyrchu gwaith o safon uchel.

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae athrawon a chynorthwywyr addysgu yn datblygu perthnasoedd gwaith cynhyrchiol gyda disgyblion. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o ymddygiad, ac maent yn defnyddio canmoliaeth yn dda i gymell disgyblion i wneud cynnydd da yn eu dysgu a chyflawni o'u gorau. Mae cwricwlwm yr ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu sy'n diwallu anghenion yr holl ddisgyblion yn briodol. Yn ychwanegol, mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n cyfoethogi eu dysgu.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth benderfynol ac mae ganddi ddisgwyliadau uchel ar gyfer pawb. Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth dda o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella ac mae llywodraethwyr yn darparu her a chymorth defnyddiol.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Gwella medrau llythrennedd disgyblion, yn enwedig safon gyffredinol sillafu a gramadeg disgyblion

A2 Gwella cyfleoedd i ddisgyblion ddylanwadu ar fywyd a gwaith yr ysgol

A3 Sicrhau bod prosesau hunanwerthuso yn canolbwyntio ar y cynnydd a wna disgyblion, a’r safonau y maent yn eu cyflawni

A4 Darparu rheolaeth ariannol gadarn

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mewn gwersi, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn ac yn galw dysgu blaenorol i gof yn dda. Mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso eu dysgu blaenorol yn llwyddiannus mewn gwahanol sefyllfaoedd. Mae ychydig o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf iawn yn eu gwersi ac yn cynhyrchu gwaith o safon uchel.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando â pharch ar athrawon a'u cyfoedion. Maent yn gwrando'n astud ac yn dilyn cyfarwyddiadau athrawon yn dda. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn rhoi atebion addas ar lafar i gwestiynau athrawon, ac mae ychydig ohonynt yn rhoi atebion estynedig, datblygedig. Mae llawer o ddisgyblion yn galw i gof, ac yn defnyddio, terminoleg sy'n benodol i bwnc yn gywir wrth esbonio eu syniadau. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn defnyddio geirfa fwy datblygedig. Er enghraifft, yn eu gwersi Saesneg, gwnânt ddefnydd cywir o iaith dechnegol a dyfyniadau priodol wrth ddadansoddi 'Hawk Roosting' gan Ted Hughes. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymryd rhan yn effeithiol mewn trafodaethau grŵp a phâr. Mae ychydig ohonynt yn dangos lefel uchel o hyder wrth gynnig barn ac nid ydynt yn ofni gwneud camgymeriadau. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn rhoi atebion byr yn unig i gwestiynau, ac mae diffyg hyder ganddynt i siarad ar goedd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn dda a gyda dealltwriaeth addas. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn crynhoi a chyfuno gwybodaeth yn hyderus. Defnyddiant ystod o ddulliau i ddethol gwybodaeth, anodi testun a nodi pwyntiau allweddol. Er enghraifft, yn eu gwersi celf, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ffurfio barn ar waith arlunwyr yn llwyddiannus ar ôl darllen amrywiaeth o destunau. Mewn mwyafrif o achosion, nid yw disgyblion yn cydnabod pan fyddant yn darllen geiriau yn anghywir.

At ei gilydd, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu gyda synnwyr da o gynulleidfa a diben, a gydag ansawdd mynegiant cadarn. Mae llawer ohonynt yn defnyddio ystod briodol o dermau technegol ac iaith sy'n gyson â chynnwys y pwnc. Maent yn ysgrifennu'n gydlynus ac yn trefnu eu syniadau'n dda, gan ddefnyddio paragraffau. Dros gyfnod, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n llwyddiannus ac yn datblygu dealltwriaeth dda o gonfensiynau gwahanol fathau o destun, ac yn gwneud dewisiadau priodol o ran iaith. Wrth ysgrifennu ffuglen, mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso eu gwybodaeth am gonfensiynau gwahanol *genres* yn llwyddiannus i greu darnau addas o waith. Mae ychydig ohonynt yn gwneud hyn yn eithriadol o dda, er enghraifft trwy ysgrifennu disgrifiadau byw, dychmygus ac atgofus o fydoedd dystopaidd. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn sillafu nac yn atalnodi'n ddigon cywir, ac nid yw ychydig o ddisgyblion yn cymryd digon o ofal dros gyflwyniad eu gwaith na'u llawysgrifen.

Mae disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn briodol ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ystyried cymarebau a chymharu symiau o gynhwysion mewn gwersi technoleg bwyd a dehongli data o ffeithluniau mewn daearyddiaeth wrth astudio newid hinsawdd. Mae mwyafrif ohonynt yn llunio a gwneud casgliadau perthnasol o graffiau ar draws pynciau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn fedrus i chwilio am wybodaeth ac ar gyfer geirbrosesu, er enghraifft cynhyrchu, golygu a gwella eu gwaith mewn gwersi addysg grefyddol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos cynnydd priodol gan ddefnyddio medrau TGCh wrth ddefnyddio delweddau a gwefannau, er enghraifft wrth goladu gwybodaeth am arlunwyr o'u dewis nhw. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio medrau TGCh sylfaenol yn briodol i greu cyflwyniadau.

Mae disgyblion yn dangos medrau creadigol cryf a gwreiddioldeb, er enghraifft trwy eu gwaith wrth ymarfer a pherfformio golygfa fer mewn drama. Mae llawer o ddisgyblion yn ymdrin â thasgau datrys problemau creadigol yn hyderus, gan gyfiawnhau eu hatebion gydag esboniadau clir, er enghraifft wrth greu teclyn dal ffôn symudol mewn gwersi technoleg. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn datblygu eu medrau dadansoddol ac ymchwiliol yn dda mewn ystod o wahanol gyd-destunau. Maent yn ymdrin â thasgau datrys problemau yn hyderus, gan gyfiawnhau eu hatebion ag esboniadau clir, a gwneud cysylltiadau ystyriol â meysydd dysgu eraill, er enghraifft mewn astudiaethau busnes pan fyddant yn cysylltu brandio a phecynnu bwyd â bwyta'n iach.

Ym mhob un o'r pedair blynedd ddiwethaf, ac yn enwedig yn y ddwy flynedd ddiwethaf, mae perfformiad yn nhrothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg a mathemateg ac yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio, wedi cymharu'n ffafriol â lefelau mewn ysgolion tebyg. Fodd bynnag, gostyngodd cyfran y disgyblion sy'n cyflawni pum gradd A*-A mewn TGAU neu gyfwerth yn sydyn yn 2018, ac mae ymhell islaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg. Serch hynny, yn y pedair blynedd ddiwethaf, mae disgyblion wedi gwneud mwy o gynnydd na'r disgwyl ar y cyfan o gyfnodau allweddol blaenorol mewn llawer o ddangosyddion.

Mae perfformiad disgyblion yn y chweched dosbarth yn amrywio o gymharu â lefelau mewn ysgolion tebyg. Cynyddodd y ganran a gyflawnodd dair gradd A*-C neu gyfwerth yn sylweddol yn 2018, ac mae uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg am y tro cyntaf mewn pedair blynedd. Mae'r ganran sy'n cyflawni tair gradd A*-A neu gyfwerth hefyd uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg yn 2018 wedi iddi fod islaw'r cyfartaledd am y tair blynedd flaenorol. Bu perfformiad yn y sgôr gyfartalog ehangach islaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg am y ddwy flynedd ddiwethaf.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 4, bu perfformiad bechgyn o gymharu â bechgyn mewn ysgolion tebyg yn anghyson dros y pedair blynedd ddiwethaf. Yn 2018, mae eu perfformiad islaw'r cyfartaledd ar gyfer bechgyn mewn ysgolion tebyg ym mwyafrif y dangosyddion. Dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad merched wedi cymharu'n dda â pherfformiad merched mewn ysgolion tebyg mewn llawer o ddangosyddion.

Yn gyffredinol, mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn cymharu'n ffafriol â'r cyfartaledd ar gyfer yr un grŵp o ddisgyblion mewn ysgolion tebyg.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 4, mae bron pob un o'r disgyblion yn aros mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Mae mwyafrif y disgyblion yn dechrau mewn addysg bellach neu addysg uwch ar ôl gadael y chweched dosbarth.

Mae llawer o ddisgyblion yn dilyn cwrs Cymraeg ail iaith ar lefel TGAU. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn ennill cymhwyster lefel 2 mewn Cymraeg. Mewn gwersi Cymraeg, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau iaith yn briodol, yn siarad â hyder, ac yn strwythuro eu brawddegau'n gywir i ddisgrifio eu gweithgareddau. Mae defnydd disgyblion o'r Gymraeg y tu allan i wersi Cymraeg yn gyfyngedig.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu cynorthwyo'n dda yn yr ysgol, ac maent yn hyderus i ymgymryd â syniadau a phrofiadau newydd. Maent yn cyrraedd gwersi'n brydlon, ac yn barod i ddysgu. Mae llawer ohonynt yn dal ati i ganolbwyntio'n dda, ac yn gweithio'n bwrpasol mewn grwpiau ac yn unigol. Mae hyn yn eu helpu i rannu syniadau a datblygu eu syniadau yn ddefnyddiol. Yn benodol, mae disgyblion ag anhwylder y sbectrwm awtistig yng nghanolfan 'Access', yn ymgymryd yn gadarnhaol â'u tasgau dysgu. Maent yn ffurfio perthnasoedd gwerth chweil gydag oedolion, ac yn cymryd rhan yn hapus ym mywyd yr ysgol. Er enghraifft, maent yn datblygu eu medrau corfforol yn greadigol wrth weithio gyda Chwmni Dawns Cenedlaethol Cymru.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Maent yn parchu eu hathrawon a'u cyfoedion. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n hyderus y gallant fynd at oedolyn os bydd ganddynt bryder. Mae ymddygiad gwael ychydig iawn o ddisgyblion yn achosi i ychydig o ddisgyblion deimlo'n orbryderus yn amgylchedd yr ysgol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu'n llwyddiannus fel dinasyddion moesegol a gwybodus. Maent yn dangos lefelau cryf o barch at gredoau pobl eraill, ac yn trafod eu gwahaniaethau'n aeddfed. Er enghraifft, mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 yn rhannu eu meddyliau'n bwrpasol am gamweddau rhagfarn a gwahaniaethu ar sail oedran, rhywedd neu grefydd. O ganlyniad, mae disgyblion yn deall safbwyntiau a barn ei gilydd yn glir.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall yn dda sut i aros yn ddiogel pan fyddant ar-lein. Maent yn gwerthfawrogi pwysigrwydd bwyta'n iach, cael digon o gwsg a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 8 yn esbonio'n dda beth yw buddion ymarfer corff i iechyd corfforol ac iechyd meddwl, fel dawns a gymnasteg. Nid yw ychydig o ddisgyblion yn rhoi eu dealltwriaeth ar waith yn ddigon da, er enghraifft wrth ddewis bwydydd a diodydd iach.

Mae grwpiau disgyblion, fel y cyngor ysgol, yn gwneud cyfraniad cyfyngedig at fywyd yr ysgol, er bod y cyngor ysgol wedi rhannu syniadau mewn perthynas â gwella toiledau disgyblion, ac wedi helpu codi arian i osod diffibriliwr yn yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw gallu disgyblion i ddylanwadu ar wneud penderfyniadau ehangach, a helpu ffurfio eu cwricwlwm, yn ddigon effeithiol.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae'r rhan fwyaf o athrawon a chynorthwywyr addysgu yn datblygu perthnasoedd gwaith effeithiol gyda disgyblion. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o ymddygiad, ac maent yn mynd i'r afael â'r problemau prin o ran ymddygiad gwael disgyblion yn

gyson ac yn effeithiol. Mae athrawon yn defnyddio canmoliaeth yn dda i gymell disgyblion i wneud cynnydd da yn eu dysgu, a chyflawni eu gorau.

Mae’r rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio a chyflwyno dilyniannau o wersi yn effeithiol. Maent yn adeiladu’n dda ar ddysgu blaenorol, gan ddatblygu medrau disgyblion yn raddol. Er enghraifft, mewn TGCh ym Mlwyddyn 7, mae athrawon yn gwella dealltwriaeth disgyblion o daenlenni wrth iddynt ddefnyddio gwybodaeth bresennol i ddatblygu medrau datblygedig mewn didoli a hidlo data. Mae’r rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio gwersi sy’n rhoi her briodol i ddisgyblion, gan gynnwys y rhai mwy abl. Defnyddiant gynorthwywyr addysgu yn dda i gefnogi cynnydd disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae mwyafrif yr athrawon yn defnyddio holi yn effeithiol i ddangos dealltwriaeth disgyblion o gysyniadau, a gwella eu medrau. Er enghraifft, mewn ieithoedd, mae holi athrawon yn datblygu gwybodaeth disgyblion am eirfa yn dda, ac yn herio disgyblion i wella eu defnydd o ferfau allweddol. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, nid yw holi yn annog disgyblion i ddarparu atebion estynedig.

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae athrawon yn trefnu a defnyddio adnoddau’n dda i gefnogi dysgu. Mae eu defnydd o enghreifftiau i ddangos gwaith llwyddiannus yn gryfder arbennig. Er enghraifft, mewn Saesneg ym Mlwyddyn 10, mae disgyblion yn gweithio gyda’r athro i ddadansoddi detholiad o nofel yn canolbwyntio ar y modd y mae’r athro yn creu naws fygythiol. Defnyddiant yr hyn y maent wedi’i ddysgu i lunio eu hatebion hynod unigol eu hunain sydd wedi’i hysgrifennu’n dda. Mewn llawer o achosion, mae gwersi’n symud ar gyflymdra sy’n galluogi disgyblion i ddatblygu ac ymgorffori medrau a gwybodaeth newydd yn llwyddiannus. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, mae athrawon yn rhoi gormod o gyfarwyddyd ar gyfer gweithgareddau. Mae hyn yn cyfyngu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu medrau ehangach fel dysgwyr annibynnol a chreadigol.

Yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau, mae athrawon yn cynnig adborth llafar clir i ddisgyblion ar yr hyn y maent yn ei wneud yn dda, a’r hyn y mae angen iddynt ei wella. Defnyddiant feini prawf llwyddiant ar gyfer cyflawniad neu ‘olrheinwyr lefel’ yn effeithiol i roi darlun cywir i ddisgyblion o’u cynnydd, a’r camau nesaf yn eu dysgu. Mewn llawer o achosion, mae athrawon yn defnyddio taflenni adborth yn llwyddiannus i ddangos i ddisgyblion sut i wella eu medrau. Mae’r rhain yn aml yn cynnwys enghreifftiau buddiol o arfer ragorol i ddisgyblion eu defnyddio fel modelau ar gyfer eu gwaith eu hunain. Yn yr achosion gorau, mae athrawon yn rhoi amser gwerthfawr i ddisgyblion ymateb i adborth ysgrifenedig a gwneud gwelliannau.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu sy’n diwallu anghenion bron pob un o’r disgyblion yn briodol. Yng nghyfnod allweddol 3, mae’r cwricwlwm yn datblygu medrau a gwybodaeth disgyblion yn systematig, er nad yw gwaith gydag ysgolion cynradd partner i gynllunio dilyniant mewn dysgu wedi’i ddatblygu’n ddigonol.

Mae trefniadau’r ysgol o ran setiau yn cefnogi dysgu yn llwyddiannus. Yng nghyfnod allweddol 4, mae’n darparu ystod werthfawr o gyrsiau academaidd a galwedigaethol. Mae’r ysgol yn gweithio’n briodol gyda cholegau ac ysgolion lleol i ddarparu ystod addas o gyrsiau yn y chweched dosbarth. Ceir trefniadau buddiol ar gyfer y disgyblion sydd fwyaf agored i niwed, gan gynnwys llwybrau cwricwlwm hyblyg

ychwanegol, sy'n cynnig cyfleoedd gwerth chweil i'r disgyblion hyn ennill ystod eang o gymwysterau.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n cyfoethogi eu dysgu. Mae hyn yn cynnwys ystod eang o ymweliadau gwerth chweil sy'n cysylltu'n effeithiol â dysgu yn yr ystafell ddosbarth. Er enghraifft, yn dilyn ymweliad daearyddiaeth Blwyddyn 8 â ffatri siocled, datblygodd disgyblion eu medrau rhifedd a'u dealltwriaeth o fasnach deg fel rhan o brosiect ymchwil trawsgwricwlaidd.

Mae mwyafrif yr athrawon yn cynllunio cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion wella eu medrau llythrennedd ar draws llawer o feysydd pwnc. Er enghraifft, mewn celf ym Mlwyddyn 8, mae disgyblion yn defnyddio eu medrau darllen i gyfuno gwybodaeth o ystod o ffynonellau, a ffurfio barn ar waith arlunwyr. Ceir cynllunio addas ar gyfer datblygu medrau rhifedd yn raddol ar draws y cwricwlwm a thros gyfnod. Megis dechrau cael eu datblygu y mae cynlluniau i ddatblygu medrau TGCh disgyblion ar draws meysydd pwnc.

Mae defnydd athrawon a disgyblion o'r Gymraeg, heblaw mewn gwersi Cymraeg, yn gyfyngedig. Mae disgyblion yn elwa ar gyfleoedd gwerthfawr i wella eu dealltwriaeth o dreftadaeth a diwylliant Cymru, er enghraifft trwy daith hanes i ymweld â'r gofeb i filwyr Cymru yn Ypres.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan yr ysgol ethos cynhwysol a chefnogol sy'n seiliedig ar 'Y gorau i bob un, llwyddiant i bawb' sy'n hyrwyddo lles disgyblion yn effeithiol. Mae'n cynorthwyo'r holl ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion sy'n agored i niwed, yn dda gan ddefnyddio ystod eang o fentrau.

Mae'r ysgol wedi datblygu system olrhain gynhwysfawr i fonitro cynnydd gwahanol grwpiau o ddisgyblion. Mae'n rhannu'r wybodaeth hon yn briodol ag arweinwyr canol sy'n ei defnyddio'n briodol, er enghraifft i fentora a hyfforddi disgyblion cyfnod allweddol 4 sydd mewn perygl o dangyflawni. Mae hyn wedi cyfrannu'n dda at gynnal deilliannau cryf yn nhrothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg a mathemateg, yn enwedig ar gyfer disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim.

Mae gan yr ysgol strategaethau buddiol i fonitro ac ymateb i absenoldeb disgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys cyswllt diwrnod cyntaf, mentora ac ymweliadau tai ar y cyd â'r swyddog lles addysg. Mae hyn wedi cyfrannu at gynnal lefel gynaliadwy o bresenoldeb dros y pedair blynedd ddiwethaf.

Mae cynlluniau addysg unigol yn werth chweil ac yn helpu staff i ddiwallu anghenion disgyblion yn effeithiol. Caiff disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol eu cynorthwyo'n dda, trwy ymyriadau unigol a grwpiau bach, er enghraifft grwpiau llythrennedd emosiynol a rhifedd. Mae'r ysgol yn monitro cyflawniad y disgyblion hyn yn effeithiol ac yn teilwra darpariaeth yn briodol i ddiwallu eu hanghenion. Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod eang o asiantaethau cymorth allanol, fel rhaglen 'Tîm o gwmpas yr ysgol' yr awdurdod lleol sy'n cynorthwyo'n fuddiol deuluoedd disgyblion sy'n agored i niwed a'r rheiny sydd mewn perygl o ymddieithrio.

Mae’r ysgol yn darparu cyfleoedd addas i rieni gefnogi dysgu eu plant, er enghraifft trwy gwrs cyfrifiaduron sy’n addysgu rhieni ynglŷn â medrau TGCh sylfaenol, a chwrs coginio i rieni gyda’u plant.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae’n darparu ystod addas o gyfleoedd amser cinio ac ar ôl yr ysgol i annog disgyblion i gymryd rhan yn y celfyddydau ac mewn chwaraeon. Er enghraifft, mae cynhyrchiad ysgol o ‘Annie’ yn darparu cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion actio, canu ac adeiladu setiau. Yn gyffredinol, mae cyfleoedd i ferched gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon addas yn gyfyngedig.

Mae bron pob un o ddisgyblion ‘canolfan integreiddio Cantonian (CRC)’ yn ymgymryd â gweithgareddau corfforol gwerthfawr, fel bocsiomarfer mewn campfa leol a sesiynau meddylgarwch, i gefnogi eu lles, gan gynnwys iechyd corfforol ac iechyd meddwl. Yn ychwanegol, mae bron pob un o’r disgyblion yng nghanolfan ‘Access’ yn ymgymryd â gweithgareddau corfforol gwerth chweil, fel beicio a garddio.

Mae’r ysgol yn cydnabod unigoliaeth disgyblion, ac yn hyrwyddo cynwysoldeb yn llwyddiannus. Mae’n dysgu disgyblion i barchu gwerthoedd a chredoau pobl eraill, er enghraifft trwy godi ymwybyddiaeth am ddisgyblion lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol, a’u cynorthwyo.

Mae’r ysgol yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion trwy wasanaethau a siaradwyr arbenigol allanol. Mae’r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yn cyfrannu’n effeithiol at ddealltwriaeth disgyblion o ystod o destunau, fel camddefnyddio sylweddau a pherthnasoedd personol. Caiff disgyblion ag anghenion ymddygiadol a chymdeithasol eu cynorthwyo’n dda ag ystod o ddarpariaeth sy’n datblygu eu dealltwriaeth foesol, er enghraifft prosiect ymwybyddiaeth o gyffuriau ‘botwm coch’ a ‘Paned gyda heddwas’ (‘Cuppa with a copper’), lle gall disgyblion gyfarfod a chysylltu â heddweision.

Mae’r ysgol yn defnyddio ystod o strategaethau yn llwyddiannus i hyrwyddo ymddygiad da. Mae’r rhan fwyaf o athrawon yn cymhwyso polisi ymddygiad yr ysgol yn gyson ac yn effeithiol. Mae’r ysgol yn dechrau holi barn disgyblion am agweddau ar fywyd yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw’r strwythur a’r cyfleoedd i ddisgyblion leisio eu barn, yn enwedig ar beth sy’n cael ei addysgu iddynt, a sut, wedi eu datblygu’n ddigonol.

Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni’r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

### Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae’r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth sicr. Mae ganddi weledigaeth glir o ddisgwyliadau uchel i bawb, sy’n cael ei rhannu’n dda ymhlith staff. Mae’r pennaeth wedi cyflwyno systemau a phrosesau perthnasol er mwyn creu diwylliant o welliant yn yr ysgol. Mae rolau a chyfrifoldebau uwch arweinwyr yn canolbwyntio’n gryf ar flaenoriaethau gwella’r ysgol, a bu arweinwyr yn rhagweithiol o ran mynd i’r afael â phroblemau tanberfformio.

Mae uwch arweinwyr yn dwyn arweinwyr canol i gyfrif yn dda trwy gyfarfodydd rheolaidd sy'n cynnwys ffocws clir ar safonau ac ansawdd yr addysgu. Mae bron pob un o'r arweinwyr canol yn deall eu rolau yn dda, ac mae ganddynt systemau a gweithdrefnau effeithiol i rannu arfer dda ar draws yr ysgol. Er enghraifft, mae staff yn cyfrannu at friffiau addysgu a dysgu wythnosol pwrpasol, ac yn cydweithio'n briodol ag ysgolion eraill i rannu a chefnogi arfer ei gilydd.

Mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol, a'r meysydd i'w datblygu. Maent yn rhoi her a chymorth defnyddiol i'r ysgol trwy'r pwyllgorau, ac yn enwedig trwy eu 'grŵp monitro targed'. Yn ychwanegol, mae llywodraethwyr yn darparu cymorth gwerthfawr i adrannau i'w helpu i wella.

Mae arweinwyr yn adnabod eu hysgol yn dda. Gwnânt ddefnydd effeithiol o ystod eang o weithgareddau sicrhau ansawdd pwrpasol a chynlluniedig i werthuso arferion addysgu ac asesu. Mae arsylwadau gwersi, craffu ar lyfrau a theithiau dysgu yn cefnogi eu gwerthusiadau yn ddefnyddiol. Nodwedd gref yw'r ffordd y mae arweinwyr yn datblygu eu hymagwedd at werthuso i sicrhau bod meysydd pryder pwysig yn destun lefel uwch o her a chymorth. Maent yn cynllunio gweithgareddau yn seiliedig ar ffocws penodol; er enghraifft, wrth werthuso her ar gyfer y disgyblion mwy abl yn ddiweddar, cynhaliodd yr ysgol drywyddau disgyblion, a chyfweld â disgyblion gyda'u llyfrau. Hefyd, mae'r ysgol yn adolygu pob gweithgaredd sicrhau ansawdd ac yn mireinio'r broses yn sgil ei defnyddioldeb. Fodd bynnag, mae ffocws annigonol ar gynnydd a safonau disgyblion wrth werthuso gwersi, yn enwedig mewn perthynas â'u medrau. O ganlyniad, nid ydynt yn nodi diffygion penodol fel anghywirdeb sillafu, atalnodi a gramadeg disgyblion yn ddigon da, ac o ganlyniad, yr angen i'r addysgu fynd i'r afael â hyn.

Mae'r ysgol yn defnyddio canfyddiadau o hunanwerthuso yn effeithiol i gynllunio ar gyfer gwelliannau ar bob lefel. Maent yn nodi'n glir y blaenoriaethau ar gyfer gwella ar bob lefel, ac yn adolygu cynnydd yn rheolaidd. O ganlyniad, dros y tair blynedd ddiwethaf, mae hunanwerthuso a chynllunio gwelliant wedi cyfrannu'n fuddiol at sicrhau gwelliannau mewn addysgu, ac yn agweddau disgyblion at ddysgu. Er enghraifft, mae'r ffocws diweddar ar fodelu a her wedi cael effaith gadarnhaol ar gynllunio athrawon.

Mae arweinwyr yn rhoi pwyslais cryf ar gefnogi arfer broffesiynol. Mae ymarferwyr arweiniol yn gweithio'n fuddiol gydag arweinwyr eraill i gynllunio a chydlynu cymorth â datblygiad proffesiynol ar gyfer athrawon. Ceir rhaglen hyfforddi, yn ogystal â briffiau addysgu a dysgu wythnosol, a chydweithio ag ysgolion eraill. Mae hyn yn gwella arfer ystafell ddosbarth ac yn sicrhau cysondeb yn ansawdd y gwersi. Mae rhaglen hyfforddi ar gyfer arweinwyr canol yn sicrhau eu bod yn gwerthuso prosesau ac arfer yn gywir.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau priodol ar gyfer rheoli perfformiad staff. Maent yn cynnwys targedau addas ar gyfer perfformiad myfyrwyr, addysgu a dysgu a datblygiad proffesiynol. Caiff y targedau hyn eu monitro'n effeithiol ar adegau allweddol yn ystod y flwyddyn ysgol. Mae hyn yn cefnogi blaenoriaethau gwella'r ysgol yn dda.

Mae gweithdrefnau cadarn i fonitro a chynllunio gwariant yn unol â'r cynllun ariannol a gymeradwywyd gan yr awdurdod lleol wedi lleihau'r diffyg yng nghyllideb yr ysgol

yn sylweddol dros y tair blynedd ddiwethaf.  Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn sicrhau bod penderfyniadau am wariant yn cysylltu'n glir â blaenoriaethau'r ysgol.  Er gwaethaf diwydrwydd arweinwyr, mae diffyg sylweddol yn y gyllideb o hyd.

Mae arweinwyr yn defnyddio grantiau penodol fel y grant datblygu disgyblion yn effeithiol.  Mae hyn yn effeithio'n gadarnhaol ar les a pherfformiad disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn gwerthuso effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 31/05/2019